Neu ar faes y gâd yn Fietnam. Gallai Cayo bron ag anadlu`r Napalm yn ei ffroenau. Arogl buddugoliaeth....!

Tra`n breuddwydio tynnodd Cayo`r pin allan o`r *grenade* a`i daflu....



Ond, arswyd y byd, rhedodd ei gi ar ôl y *grenade*,
9 eiliad...
8 eiliad ...

Yna cododd y *grenade* i`w geg, a gwelodd ei feistr.
7 eiliad ...
6 eiliad...



A rhedodd yn ôl tuag ato.
5 eiliad...
4 eiliad ...

Roedd yn rhaid i Cayo wneud penderfyniad cloi. Ai ceisio achub ei groen neu ei *gi*.
3 eiliad ....
2 eiliad ....



Rhedodd y Kommandante am ei fywyd.
1 eiliad ...
0 eiliad...
Kerboom!
Ffrwydrodd y ci o Abergwesyn i ebergofaint.



Ac aeth y ci i`r wlad lle mae pawb yn rhydd ....

Cynhaliwyd cynhebrwng i`w compadre gan yr FWA yn yr Angel; cyfaill a gollwyd yn y frwydr barhaol yn erbyn y gelyn ...

..wnes i ddim dweud wrtho faint o`n i`n ei garu..

Deng Xiaoping

天下興亡
匹夫有責

Mwy o *comebacks* na Dafydd Iwan.



Deng Xiaoping sy`n 92 mlwydd oed eleni yw arweinydd swyddogol China. Ar yr un llaw y dyn oedd yn gyfrifol am y `*wyrth economaidd*` yn China, ac ar y llaw arall y dyn wnaeth anfon y tanciau mewn i Sgwar Tianamen. Bob tro byddai Mao Tse Tung yn hyderus. byddai`n carcharu Deng. Bob tro byddai mewn trwbwl, byddai`n ei rhyddhau i gael ei help i redeg y wlad.... Deng Xiaoping - mwy o *comebacks* na Dafydd Iwan.

Wedi ei eni mewn i deulu cefnog, wedi astudio dramor yn Ffrainc yn ystod y 1920`au, ac wedi ymuno â Mao yn ei wersyll yn Jiangxi yn 1930, roedd gyrfa ddisglair o flaen Deng o fewn Plaid Gomiwnyddol China. Cymrodd ran yn yr Orymdaith Hir i Shaanxi yn 1934-35, a bu`n brwydro yn erbyn lluoedd Chiang Kai Chek cyn cael ei ddyrchafu i Bwyllgor Canolog y Blaid Gomiwnyddol yn 1945

Roedd yn un o ffefrynau Mao ar y dechrau: yn ddirprwy arweinydd yn 1954, ac yn ysgrifennydd cyffredinol y Blaid rhwng 1956 ac 1966. Ond pragmatydd oedd Deng. Roedd yn gwrthwynebu syniadau `*The Great Leap Forward*` Mao pan orfodwyd y Chineaid i doddi popeth metel oedd ganddyn nhw, gan gynnwys sospeni etc er mwyn i China ddod yn wlad ddiwydiannol. a phan fu farw miliynau o Chineaid o newyn oherwydd polisiau amaethyddol Mao. Ymosodwyd arno felly yn ystod y Chwyldro Diwylliannol, a `*diflannodd*` rhwng 1967 ac 1969

Y *comeback* cyntaf - dan orchymyn Zhou Enlai daeth Deng yn ddirprwy arweinydd eto yn 1973. Pan fu farw Zhou yn 1976 aeth y Gang o Bedwar ati i `*gael gwared*` ar Deng eto.

Yr ail *comeback* - Rhoddodd Hua Guofeng ei swydd yn ôl iddo yn 1977, ac yn ddiweddarach daeth Deng i gymryd lle Hua fel arweinydd.

***Comeback* rhif tri - China** aeth Deng ati i newid China gan gyflwyno`r farchnad rydd i`r wlad a cheisio denu buddsoddwyr tramor. Doedd e ddim yn ffafrio newid gwleidyddol serch hynny, ac roedd am weld y Blaid Gomiwnyddol yn dal gafael llwyr ar y wlad.



Sgwâr Tianamen - tanco!



Ef oedd yn gyfrifol am orchymyn y lladdfa gwaedlyd yn Sgwar Tianemen yn 1989. Er ei fo wedi ymddiswyddo o bob swydd, mae`n dal yn reolwr *swyddogol* ar China. Mae`n amheus erbyn hyn os mai dim ond ei *wheelo mas* ar gyfer digwyddiadau swyddogol mae`r Chineaid yn gwneud erbyn hyn.

Ei hoff sloganau? ...

`To grow rich is glorious`
`Execution is part of education`

OASIS v SUPER FURRY ANIMALS?

Howard Marks

Derbyniodd **Seren Tan Gwmwl** alwad ffôn syfrdanol heddiw wrth berson oedd yn honni i fod yn reolwr ar un o`r bandiau roc mwyaf yn Ewrop - *Oasis*. Yn ôl y `rheolwr`, teimlad y band, ac yn arbennig y prif ganwr a`r golffiwr rhyngwladol talentog Bernard Gallagher oedd eu bod wedi cael digon o lwyddiant, cyffuriau, *Rolls-Royces* a menywod i bara oes. O ganlyniad bu`r brodyr Gallagher ar gwrs WLPAN yn *Llambed; gwelsant y goleuni. Maen nhw`n bwriadu trefnu taith fawreddog gan ddechrau gyda Cross* Hands, Penuwch a Hermon.

oasis

Liam Gallagher

`Maen nhw ond yn byw 50 milltir o`r ffin ta beth`*, dywedodd eu rheolwr (honedig), *`ac maent yn ystyried eu hunain yn Gymry beth bynnag, ac eisiau canu yn eu mamiaith`. Aeth ymlaen i ddweud ...

`Teimlai`r band nad oedd canu yn Saesneg yn unig yn ddigon o her iddyn nhw, a bod y sin roc mor static a diflas, fel nad oedd cyfle iddyn nhw ehangu eu doniau yn llawn ac arbrofi.`

Super Furry Animals

Neithiwr doedd **Catatonia** na`r **Super Furry Animals** ddim ar gael i gynnig sylwadau ar y gystadleuaeth newydd fydd yn eu hwynebu o fewn y sin roc Gymraeg!!

Nero yr hero ...!

Nero - neu Lucius Domitius Ahenobarbus - tipyn o *hero*. Daeth yn Ymerawdwr Rhufain yn 17 mlwydd oed, yn y flwyddyn 53 yn dilyn marwolaeth Claudius. Yn y flwyddyn 59 trefnodd i`w fam gael ei llofruddio oherwydd ei bod yn beirniadu ei gariad, Poppaea Sabina. Yn ddiweddarach lladdodd Sabina.

Yn 64 llosgodd dwy ran o dair o Rufain. Yn dilyn methiant mewn cyfres o ryfeloedd cafwyd gwrthryfel yn erbyn Nero; ffodd o Rufain, ac yn y flwyddyn 68 lladdodd ei hun.

Boring But True ...

1 - roedd Nero yn blentyn amddifad.

2 - roedd gan ei wraig 500 asyn i gadw ei bath yn llawn llaeth drwy`r amser.

3 - roedd Nero yn bwyta cennin i wella ei lais canu.

4 - mae`n amhosib i Nero fod wedi *`ffidlo tra bod Rhufain yn llosgi`* - doedd y violin ddim wedi cael ei ddyfeisio bryd hynny.

5 - bu`n cystaldu fel athletwr yn yr Olympics yn 60 o.c. gan ennill pob cystadleuaeth wnaeth e` gystadlu ynddyn nhw - er ei fod yn athletwr gwael!

Robert de Niro
`ges i`n enwi
ar ei ôl ef`

Gemau Olympaidd yn dod i Geredigion!!



Cafwyd cyhoeddiad syfrdanol heddiw wrth bwyllgor y Gemau Olympaidd, pan wnaethon nhw ddatgan y byddai Gemau Olympaidd 2004 yn mynd i weriniaeth fach gwbl annibynnol yng ngorllewin gwlad fach arall (sydd ddim yn annibynnol) - enw'r Weriniaeth yw *Ceredigionaberteifi*. Mae'n wlad sy'n cael ei hystyried yn un *drydydd byd*, yn llawn amaethwyr a gyrrwyr tractors, ffanatics *whist drive* a beirdd.

P. Rees Edwards

Urdd - asol!

Gwnaed y cyhoeddiad rhyw dair awr yn ôl mewn neuadd farchnad lawn yn Llanybydder, gan un o'r rhai fu'n rhan o'r tim ymgyrchu yng Ngheredigion - P.Rees Edwards. Mae'r logo eisioes yn barod - llun gan Kyffin Williams o dolphin yn nofio mewn môr yn llawn caniau *coke*, papurau *mars bars*, condoms, carffosiaeth, *cartons* gwag ac olew. Serch hynny pan ofynwyd i Mr. Edwards pwy fyddai prif noddwyr y gemau, dywedodd mai *Coca Cola, Mars, Durex* a *plumber* o Dalgarreg o'r enw Eddie Jenkins.

Bydd gwisg swyddogol y Gemau'n cael ei noddi gan *Cheap Charlies* o Aberystwyth, a bydd yn cynnwys *jeans* wedi ffado, *sneakers*, crys check du a choch, a siwmper *pringle* ar gyfer diwrnodau cymylog.

Mae'r prif safleoedd eisioes yn barod. Bydd y bocsio yn digwydd yn Sgwar Finch Aberteifi rhwng 1 a 3 o'r gloch y bore (dydd Sul), gyda rowndiau rhagbrofol yn nhafarndai'r dre yn hwyr ar Nos Sadwrn. Ar gyfer y cystadleuthau nofio mae'r gemau wedi bod yn ddigon ffodus i gael yr hawl i ddefnyddio pwll nofio Ysgol Aberaeron, cyn belled â bod y cyhoedd a phlant ysgol yn cael blaenoriaeth.

Billy Rees ar y blaen yng nghystaldeuaeth
'cicio'r cach mas o Billy Rees'

Fel sy'n arferol gyda'r gemau Olympaidd, cafodd Ceredeigionaberteifi'r hawl i ddewis un gem eu hunain; wedi meddwl yn ddwys, gwrthodwyd y syniad o rasio cwrwgl, cneifio defaid, *pool*, darts a dringo coed, ac yn hytrach dewisiodd y pwyllgor yr hen grefft draddodiadol o *bwyso un llaw ar wal, tra'n dal kebab yn y llall, a cheisio pisho'ch enw ar y wal ar ôl yfed pymtheg peint o lager*. Cwynodd rhai gwledydd bod hyn yn rhoi mantais anheg i wledydd y Gorllewin - un o'r rhai wnaeth ddatgan na fyddai'n ceisio pisho ei enw oedd Zhugyanov Ilych Potronosky o Rwsia.

Mr Cynog Dafis
Aelod Seneddol y Blaid Werdd

Bydd y pentref Olympaidd yn ardal Gorbals-Penparcau o Aberystwyth. Dywedodd Mr Edwards:

'Fydd y bobl leol ddim yn amharu arnom ni. Gallwn eu defnyddio fel ymarfer ar gyfer y gystadleuaeth saethu. Mae'r rhan fwyaf ohonyn nhw'n ddiwaith beth bynnag. efallai y bydd yn dod â rhyw fath o gyffro i'w bywydau yn lle bwrw'r Temazepam drwy'r dydd.'

Croesawyd y newydd gan **Mr. Cynog Dafis, yr Aelod Seneddol Plaid Cymru** lleol gan y byddai'n dod â swyddi i'r ardal, yn hybu'r economi, ac yn fodd o ddangos yr Iaith Gymraeg i'r byd.

Mr Cynog Dafis
Aelod Seneddol Plaid Cymru

Serch hynny, doedd **yr Aelod Seneddol gyda'r Blaid Werdd yn yr ardal, Mr. Cynog Dafis**, ddim mor siwr. *'Bydd hwn yn drychineb ecolegol. This will be an ecological disaster. Gwallgofrwydd llwyr - pobl yn crwydro o gwmpas yn dinistrio cefn gwlad. Sheer madness - all these people roaming about destroying the countryside,'* dywedodd / he said.